Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Dwynwen Thomas**

**Nefyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Dwynwen Thomas yn warchodwr plant sy'n darparu gofal o'i chartref yn Nefyn, Gwynedd, ac mae hi wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at chwe phlentyn dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 07.30 a 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ond mae'n siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo'n dda, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig dewis amrywiol o weithgareddau i'r plant er mwyn hybu eu chwarae a'u dysgu. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i blant ac mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol i'w hoedran i ehangu eu chwarae a'u dysgu. Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth ac mae ganddi bartneriaethau da â'r rhieni. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn cyrraedd y safonau a chydymffurfio â'r rheoliadau.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant ac wedi prynu adnoddau newydd i wella cyfleoedd chwarae a dysgu'r plant. Ers yr arolygiad, mae wedi llunio gweithdrefnau ar gyfer argyfwng tân, newid cewynnau a mynd ar deithiau.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi cynghori'r gwarchodwr plant fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol; cofnodi pob damwain a gofyn i rieni lofnodi'r cofnod er mwyn dangos eu bod wedi cael gwybod amdano (rheoliad 30). Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant gymryd camau i unioni'r diffyg cydymffurfio hwn, ac yn ystyried y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu a'r amgylchedd.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn hyderus, yn hapus ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a gyda'i gilydd. Mae'r plant wedi setlo, yn mwynhau eu gweithgareddau, ac yn dysgu sgiliau gwahanol drwy chwarae yn llwyddiannus.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain, er enghraifft roeddent yn penderfynu pryd roeddent wedi cael digon i'w fwyta amser cinio ac yn dewis y teganau roeddent am chwarae â nhw gan ei bod yn hawdd cael gafael ar yr adnoddau. Dywedodd y plant hŷn a oedd yn cyrraedd ar ôl ysgol wrthym eu bod yn hoffi tynnu lluniau, chwarae cerddoriaeth ar yr allweddell a gwneud gwaith crefft yng nghartref y gwarchodwr plant. Roedd pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn hoffi mynd am dro i'r parc neu'r traeth. Roedd gan y plant lais cryf gan fod y gwarchodwr plant yn gwrando ar yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud, ac yn ei barchu. Er enghraifft, pan aethant at y gwarchodwr plant i ddweud wrthi eu bod wedi gadael rhywbeth yn yr ysgol, rhoddodd sicrwydd iddynt y byddai'n dod o hyd i'r eitem. Roedd hyn yn helpu'r plant i deimlo'n fodlon ac yn hapus  barhau i chwarae.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel am fod ganddynt gydberthynas agos â'r gwarchodwr plant a'u bod yn gwneud ffrindiau â'i gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn chwerthin wrth iddynt wthio ei gilydd ar y teganau reidio yn yr awyr agored a siarad â'i gilydd a'r gwarchodwr plant yn gyfeillgar yn ystod amser cinio. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac, er enghraifft, yn golchi eu dwylo cyn bwyta.

Roedd y plant yn llwyddo i ddysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol ac yn dangos cwrteisi yn ystod amser te. Er enghraifft, gwelwyd y plant yn eistedd yn daclus gyda'i gilydd wrth fwrdd y gegin; yn diolch i ffrind am osod y byrbrydau a'r platiau, ac yn aros yn amyneddgar i'r bwyd gael ei weini cyn iddynt ddechrau bwyta. Roeddent yn cofio dweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ ar ôl cael mwy o fwyd gan y gwarchodwr plant neu wrth ffrind am basio rhywbeth roeddent am ei fwyta iddynt. Er bod angen atgoffa'r plant iau i rannu teganau ar adegau, roedd y plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd ar y cyfan ac yn gwerthfawrogi cwmni ei gilydd.

Roedd gan y plant amrywiaeth o weithgareddau i hybu eu dysgu ac roeddent yn edrych yn hapus. Wrth chwarae, roeddent yn falch o'u hunain am adeiladu tŵr uchel o flociau ac yn gwenu pan oedd y gwarchodwr plant yn eu canmol am eu cyflawniadau.  Gwnaethant fwynhau adeiladu tryciau ‘monster’ a thrafod yr anifeiliaid y gallwch ddod o hyd iddynt yn Awstralia. Gwnaethant ddangos gweithgaredd map o'r byd i ni yn frwdfrydig, sef gweithgaredd a ddefnyddiwyd ganddynt i gefnogi eu canfyddiadau, gan ddod o hyd i'r cyfeiriad at nifer y defaid sy'n byw yn Awstralia yn llawn balchder. Daeth plentyn arall o hyd i gyfeiriad at Affrica, a gydag ychydig o anogaeth gan y gwarchodwr plant, cofiodd fod Moroco yn rhan o Affrica.

Roedd y plant yn dechrau gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gwnaethant lwyddo i wisgo eu cotiau a'u hetiau cyn mynd allan i chwarae. Roedd y plant yn defnyddio eu dychymyg wrth chwarae rôl ac roedd eu sgiliau iaith yn datblygu'n dda yn y sgyrsiau a gawsant gyda'i gilydd a'r gwarchodwr plant. Roeddent yn dysgu sut i gadw'n iach drwy'r bwyd, y byrbrydau a'r diodydd a ddarparwyd, ac roeddent yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored.

## 2. Gofal a Datblygiad Digonol

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi arferion iechyd a hylendid addas ar waith ar y cyfan. Mae'n hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn gyson. Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Mae'n darparu amrywiaeth o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn briodol.

### Ein canfyddiadau

Roedd y gwarchodwr plant yn deall y gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai ganddi bryderon ynglŷn ag amddiffyn plant, ac roedd hefyd wedi cwblhau cwrs amddiffyn plant. Roedd gan y gwarchodwr plant gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a ddylai ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys pe bai angen. Roedd yn cadw cofnodion o'r feddyginiaeth a roddwyd yn briodol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn hysbysu'r rhieni ar lafar am unrhyw ddamwain yr oedd eu plentyn wedi'i gael pan fyddent yn dod i'w gasglu, ond ei bod yn cofnodi achosion mwy difrifol megis anaf i'r pen. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hwn yn cydymffurfio â'r rheoliadau na pholisi'r gwarchodwr plant mewn perthynas â chofnodi damweiniau yn gyffredinol a sicrhau bod rhieni yn llofnodi'r cofnod i gadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu am y ddamwain.

Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn arferion hylendid diogel ar y cyfan, gan sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau a bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn ar gyfer newid cewynnau ac nid oedd tywelion unigol i'r plant sychu eu dwylo, gan olygu nad oedd y gwasanaeth yn dilyn y canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau. Yn dilyn ein hymweliad, gwnaeth y gwarchodwr plant gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd y gwarchodwr plant yn credu mewn darparu bwydlen iach gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Er enghraifft, gwnaeth y plant fwynhau cinio briwgig eidion cartref yn ystod amser cinio, gyda llawer o lysiau a phwdin reis cartref. Roedd y gwarchodwr plant yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r rhieni am yr alergenau bwyd a oedd wedi'u cynnwys yn y fwydlen ddyddiol, a gwnaeth swyddog diogelwch bwyd yr awdurdod lleol a ymwelodd â'r gwarchodwr plant yn 2018 roi'r sgôr uchaf posibl iddi. Roedd hyn yn dangos bod y gwarchodwr plant yn cydymffurfio â'r canllawiau ar drin a pharatoi bwyd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi cynnal ymarferion tân gyda'r plant ond nad oedd wedi'u cofnodi. Er bod cynllun gwagio'r adeilad adeg tân ar waith, nid oedd gweithdrefn ysgrifenedig. Fodd bynnag, gwnaeth y gwarchodwr plant gymryd camau i ymdrin â'r mater hwn yn dilyn ein hymweliad.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn effeithiol ac yn trin y plant â pharch. Roedd yn fodel rôl da ac roedd ganddi gydberthynas naturiol â'r plant, gan siarad â nhw'n garedig a chanmol eu cyflawniadau. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn brysur ac roedd yn rhyngweithio'n dda â nhw drwy gydol ein hymweliad er mwyn cefnogi eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn ofalgar tuag at y plant, gan sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion yn briodol. Er enghraifft, eisteddodd i fwyta ei chinio wrth ymyl y plant a phan welodd eu bod yn cael trafferth torri eu bwyd, cynigiodd eu helpu. Roedd hefyd yn ystyriol o adael y plant i gwblhau'r dasg hon ar eu pen eu hunain hyd eithaf eu gallu, er mwyn hyrwyddo eu sgiliau hunangymorth. Roedd y gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau chwarae a dysgu a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu. Er enghraifft, roedd y plant eisoes yn llwyddo i ddysgu i gyfrif a nodi lliwiau wrth chwarae.

Cynhaliwyd yr holl weithgareddau drwy famiaith y plant, sef Cymraeg, a oedd yn annog eu chwarae ac yn gwella eu sgiliau cyfathrebu ac iaith. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion ysgrifenedig o rai o gyflawniadau'r plant bob dydd yn y wybodaeth yr oedd yn ei rhoi i'r rhieni, naill ai'n wythnosol neu'n ddyddiol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw brosesau ffurfiol i ddangos sut roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio ei harsylwadau i gynllunio ar gyfer camau dysgu nesaf y plant, a allai wella'r canlyniadau iddynt pe baent yn cael eu cwblhau.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar, diogel a glân i'r plant. Mae'n sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n hybu eu chwarae a'u dysgu ac mae'r ffordd y caiff yr adnoddau eu gosod yn hybu eu hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

Sicrhaodd y gwarchodwr plant fod y plant yn cael eu goruchwylio a'u bod yn ddiogel tra bod llawr pren newydd yn cael ei osod yn y cyntedd, ond ni wnaeth gloi'r drws ffrynt ar ôl i'r gweithwyr adael. Fodd bynnag, cymerodd y gwarchodwr plant gamau i fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod ein hymweliad, a bydd yn cadw'r allwedd gerllaw ond allan o gyrraedd y plant. Roedd yr ardal awyr agored yn ddiogel; roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle, a chymerodd y gwarchodwr plant gamau i gwblhau ei gweithdrefnau gweithredol ar gyfer teithiau yn dilyn yr arolygiad. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym y bu'n rhaid plygu ei lein ddillad sy'n troi yn yr awyr agored oherwydd y tywydd, gan olygu bod y leiniau dillad yn hongian yn rhydd a allai achosi niwed i'r plant. Cytunodd y gwarchodwr plant i gynnwys gwybodaeth am sut y caiff y risgiau i'r plant eu rheoli a, lle y bo'n bosibl, eu dileu, mewn perthynas â'r mater hwn yng nghofnodion ei hasesiadau risg. Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Roedd y gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a golau i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Roedd digonedd o le i'r plant fod yn egnïol dan do ac yn yr awyr agored gyda'r adnoddau wedi'u gosod fel bod modd i'r plant ddewis beth roeddent am ei wneud. Roedd gan y gwarchodwr plant ystafell ddynodedig i'r plant gysgu ynddi a gan fod y gofal yn cael ei ddarparu ar y llawr gwaelod, gallai'r plant a oedd yn ddigon hen ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân, mewn cyflwr da, ac yn darparu amrywiaeth dda o ddewis ar gyfer y plant. Roedd y gwarchodwr plant wedi ystyried ffyrdd o sicrhau bod y plant yn dysgu am natur ac yn defnyddio deunyddiau naturiol fel rhan o'u dysgu. Er enghraifft, roeddent wedi casglu dail yr Hydref, eu gludo ar ddarn o bapur ac ysgrifennu geiriau wrth eu hymyl a oedd yn cyd-fynd ag enw'r ddeilen a gasglwyd, megis gwiwerod a mes. Roedd y plant hefyd wedi mwynhau torri a gludo'r cynhwysion sydd eu hangen i wneud crempogau yn ogystal â'r hyn roeddent am ei roi arnynt. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod ardaloedd cyfforddus ar gael lle y gallai'r plant eistedd ac ymlacio neu eistedd gyda'i gilydd fel grŵp o amgylch bwrdd y gegin.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

**Crynodeb**

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir, ac mae'n darparu gwasanaeth trefnus sy'n diwallu anghenion y plant a'r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn addas ac mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni. Mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol sydd o fudd i'r plant.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi systemau addas ar waith ar gyfer rheoli'r gwasanaeth. Roedd y datganiad o ddiben yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol, fel cofnodion presenoldeb dyddiol, gwybodaeth yn ymwneud â'r plant a ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi gan y rhieni; gan gynnwys caniatâd i'w plentyn gael triniaeth feddygol frys. Roedd y gwarchodwr plant wedi llunio polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r gofal y mae'n ei ddarparu, ac roedd yn cadw'r wybodaeth am ei gwasanaeth yn ddiogel er mwyn cynnal cyfrinachedd y rhieni a'u plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn gofyn i'r rhieni gwblhau holiaduron mewn perthynas â'r gwasanaeth roedd yn ei ddarparu, ar eu cyfer nhw a'u plant. Er enghraifft, roedd y cwestiynau yn yr adran 'llesiant' yn berthnasol i'w plentyn/plant ac roedd gweddill yr holiadur wedi'i anelu at y rhieni eu hunain. Roedd pob ymateb yn gadarnhaol, a dywedodd y rhieni fod y gwarchodwr plant yn; 'always put their child first', 'always flexible' ac yn darparu 'excellent care'. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn aml yn trafod hoff bethau'r plant a'r hyn y byddent yn hoffi ei wneud yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Gallai gynnwys y wybodaeth hon yn ei hadroddiad ar ansawdd y gofal a fyddai'n dangos ymhellach sut roedd y gwarchodwr plant yn casglu barn y plant ac yn bodloni eu ceisiadau. Roedd y gwarchodwr plant yn ystyried ffyrdd o wella profiadau chwarae'r plant ac roedd wedi llwyddo i gael cyllid gan yr awdurdod lleol i brynu trỳc fforch godi mawr i'r plant chwarae ag ef yn yr awyr agored.

Roedd y gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth reoli'r gwasanaeth ac roedd yn sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob person dros 16 oed sy'n byw yn y cartref yn gyfredol. Roedd yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r arferion diweddaraf a'i bod wedi cwblhau hyfforddiant megis Busy Feet, Makaton a diogelwch bwyd.

Roedd gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac roedd wedi gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am eu plentyn cyn iddo ddechrau, a oedd yn rhoi gwybodaeth iddi am anghenion a dewisiadau unigol y plant. Roedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni drwy ddarparu adroddiad dyddiol ysgrifenedig am amser eu plentyn yn ei gofal. Roedd yn mynd â'r plant ar amrywiaeth o deithiau cerdded ac yn cwrdd â gwarchodwyr plant am bicnic a drefnwyd yn yr ardal, a oedd yn helpu'r plant i deimlo'n rhan o'u cymuned leol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r gwarchodwr plant ystyried y canlynol;

- Cofnodi sut mae'n defnyddio ei harsylwadau i gynllunio chwarae a dysgu pob plentyn yn y dyfodol;
- cofnodi ymarferion tân i ddangos eu bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn;
- cynnal asesiad risg o'r lein ddillad sy'n troi yn yr ardd er mwyn sicrhau nad yw'n peri risg i'r plant a chadw cofnod ysgrifenedig o sut y caiff hyn ei gyflawni.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 12 Chwefror 2020 rhwng 12.10 a 16.10.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, y polisïau amddiffyn plant, cwynion a rheoli ymddygiad;
- arolygu'r ardaloedd a ddefnyddiwyd gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- siarad â'r plant ac edrych ar ddwy o'u ffeiliau;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant ar ein canfyddiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Dwynwen Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **07.30 - 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **30 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/07/2020